



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 2 Rhagfyr 2014 am 6.30yh yn Ystafell Gynhadledd Antur Teifi, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 2 December 2014 at 6.30pm at the Antur Teifi Conference Room, Cardigan.

Presennol/Present—Cynghorwyr/Councillors Graham Evans (*yn y gadair/in the chair*), John Adams-Lewis, Dai Brabrook, Mark Cole, Melfydd George, Gwynfi Jenkins, Catrin Miles, Jane Roche (*gadawodd am/left at 8.10pm*).

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

Croesawodd y Maer, y Cyng. Graham Evans, bawb i'r cyfarfod, yn cynnwys pedwar aelod o'r cyhoedd. Cyfeiriodd at anhwyledeb y Cyng. Llwyd Edwards wedi iddo ddychwelyd i Ysbyty Treforus am ail lawdriniaeth; dymunwyd y gorau iddo gan yr holl gynghorwyr. Diolchwyd i'r Dirprwy Faer, y Cyng. John Adams-Lewis, am gymryd yr awenau yn ystod yr is-bwyllgorau pan oedd y Maer a'r Faeres ar daith i'r Almaen ac Awstria; cyflwynwyd tarian i Faer Laufen mewn digwyddiad swyddogol yno. Diolchwyd hefyd i'r Cynghorwyr Dai Brabrook a Richard Jones, yn ogystal â'r Bachan Deche, Mr John Morris, am sicrhau bod y goeden Nadolig yn ei lle mewn pryd; cafwyd defod hyfryd gyda phlant Ysgol Gynradd Aberteifi, Martyn Geraint (diddanydd plant) ac eraill i gynnu'r goleuadau ar 27 Tachwedd.

The Mayor, Cllr Graham Evans, welcomed all to the meeting, including four members of the public. He referred to Cllr Llwyd Edwards' unfortunate return to Morryston Hospital for further surgery; members all wished Cllr Edwards well. Cllr Evans thanked the Deputy Mayor, Cllr John Adams-Lewis, for deputising at the recent sub-committees during the Mayor and Mayoress' visit to Germany and Austria; a town shield was presented to the Mayor of Laufen during an official event. Gratitude was extended to Councillors Dai Brabrook and Richard Jones and also the Handyperson, Mr John Morris, for ensuring that the Christmas tree was in its place for the official switch-on of the Christmas light on 27 November; the choir of Ysgol Gynradd Aberteifi, Martyn Geraint (children's entertainer) and others contributed towards an enjoyable evening.

2. Ymddiheuriadau / Apologies: Cyngh./Cllr Llwyd Edwards (*yn yr ysbyty/in hospital*), Clive Davies (*Sioe Aeaf/Winter Show*), Akira Shimzaki (*gwyliau/holidays*).

3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Phersonol gan Gynghorwyr.

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Cyng./Cllr John Adams-Lewis	Yr holl faterion cynllunio/All planning matters Gohebiaeth/Correspondence 11 (205 & 206)
Cyng./Cllr Catrin Miles	Gohebiaeth/Correspondence 11 (205 & 206)
Cyng./Cllr Mark Cole	Cadwgan Grant 13(a)
Cyng./Cllr Jane Roche	Is-bwyllgor/Sub-Committee 25/11/14, tud./page 923

4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 4 Tachwedd.

Confirmation of Minutes of 4 November Council Meeting.

Tud. 909, eitem 6: Bydd cwmni Scott yn trosglwyddo'r awenau yn ôl i Cadwgan ar "19" Rhagfyr nid "21" Rhagfyr.

Page 910, item 6: The castle contractors Scott will return responsibility for the site to Cadwgan on "19" December and not the "21" December.

Gyda'r cywiriad uchod, cynigiwyd gan y Cyng. Mark Cole ac eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook bod cofnodion cyfarfod y cyngor 4 Tachwedd yn gywir.

With the above amendment, it was proposed by Cllr Mark Cole and seconded by Cllr Dai Brabrook that the 4 November council minutes were correct.

5. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 4 Tachwedd (Mewn pwyllgor).**
Confirmation of Minutes of 4 November Council Meeting (In committee).

6. **Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.**

Tud. 909, eitem 6: Dyddiadau newydd sydd wedi eu clustnodi i archwiliad Llain Las Maesglas: 16 a 17 Rhagfyr yn Neuadd y Dref am 10.00yb.

Tud. 910, eitem 6: Mae'r Cyng. Mark Cole wedi siarad â Mr Gareth Thomas, swyddog Cantref, ynglŷn â chymhlethdod perchnogaeth Lôn Bingham; y farn gref yw bod digon o dystiolaeth ar gael i brofi taw'r cyngor sir sydd â'r cyfrifoldeb amdani.

Tud. 911, eitem 8: Mae'r Cyng. Clive Davies wedi gofyn am sampl o'r defnydd a ddefnyddir i'r canopi yn y castell.

Tud. 911, eitem 8: Sicrhawyd y cyngor y byddai'r geiriad ar arwydd Pantwyylan yn cael ei addasu i gynnwys y Gymraeg. Ymatebodd y Cyng. Melfydd George gan ddatgan y dylai'r arwydd yn ei gyfanrwydd fod yn y Gymraeg yn unol â chanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Tud. 912, eitem 10(b)(i): Yn dilyn y gwaith ar yr hen bont, siom oedd gweld bod un o'r goleuadau newydd yn ddiffygiol. Mae'r Cyng. Catrin Miles wedi bod mewn cysylltiad â swyddogion y cyngor sir ynglŷn â'r broblem. Cadarnhawyd gan y Cyng. Miles bod y golau bellach yn gweithio'n iawn.

Tud. 912, eitem 10(c)(i): Bu'r cyfarfod yn Ystafell Radley gyda swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru i drafod y diweddaraf ynglŷn â'r llifogydd yn llwyddiannus; cafwyd arwyddion addawol o'r ffordd ymlaen i warchod y dref rhag llifogydd yn y dyfodol. Bydd y Cyngorwyr Adams-Lewis, Mark Cole a Catrin Miles yn cyfarfod â Mr Rhodri Llwyd, Cyngor Sir Ceredigion, ar 4 Rhagfyr i drafod argymhellion pellach ar y mater; mae gwahoddiad i gynghorwyr y dref fod yn bresennol hefyd.

Ychwanegodd y Cyng. Dai Brabrook y byddai Mr Phil Pickersgill, CNC, yn barod i gyfarfod ag aelodau'r cyngor ger twnel atal llifogydd y Mwldan ar 15 Rhagfyr.

Tud. 915, eitem 13: Mae golau ar Lôn Cnwcydintir wedi ei gywiro gan gwmni Derwen Lighting.

Page 910, item 6: The confirmed dates of the Maesglas Village Green enquiry: December 16 and 17 at the Guildhall at 10.00am.

Page 910, item 6: Cllr Cole has discussed the ownership of Bingham Lane with Mr Gareth Thomas, officer with Cantref; it is felt that documents transferred to the county council are significant in proving that the higher authority has full responsibility for the lane.

Page 911, item 8: Cllr Clive Davies has requested a sample of the material used for the canopy at the castle.

Page 911, item 8: The council was assured that the revised signage at Pantwyylan would include some Welsh. Cllr Melfydd George stated that the complete wording should be in bilingual form as directed by the policy of the Welsh Language Board.

Page 912, item 10(b)(i): Following the work to repair the old bridge, it was disappointing to find that one of the new lights was malfunctioning. Cllr Catrin Miles had reported the problem to county council officers and was pleased to confirm that the lights were functioning correctly again.

Page 913, item 10(c)(i): The meeting at Ystafell Radley in the Guildhall with officers of Natural Resources Wales had proved to be successful. There were positive indications to move the flood defences agenda in Cardigan forward. Cllrs Adams-Lewis, Mark Cole and Catrin Miles will meet with Mr Rhodri Llwyd, Ceredigion County Council, on 4 December for further discussion; council members are invited to attend.

Cllr Dai Brabrook added that Mr Phil Pickersgill, an officer with NRW, was prepared to meet members at the Mwldan flood alleviation tunnel on 15 December.

Page 915, item 123: The lights at Cnwcydintir Lane have been repaired by Derwen Lighting.

7. **Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.**

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

Cyflwynodd y Maer ei ddyddiadur am fis Tachwedd a rhestrwyd hefyd holl weithgareddau'r Nadolig.

The Mayor presented his diary for November and all Christmas events were listed.

8. Cynllunio / Planning:

Rhif y Cais / Application No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Sylwadau / Comments
A140774	Dôl y Dintir	Variation of Condition No. 2 (Planning Permission A130564) to allow amendments to the approved scheme.	The council has no objection.
A140851	25 Mile, 1 Pendre	External alterations to shop-front and side elevation.	The council reiterates its previous concerns that work is once again proceeding before permission has been received by the applicant. Members enquired whether Menter Aberteifi had been consulted regarding the over-view of the windows onto the Guildhall courtyard and also the repositioning of benches thereat?
A140881	17 North Road	Change of use from previous dry cleaners to residential. The property was originally residential but has changed use over the years.	The council supports the application.
A130862	Land off Tenby Road	Development of 13 dwellings (reduced to 11) and associated works for the social rented market.	<i>Apêl gan Mr Ll. Edwards.</i> Appeal by Mr Ll. Edwards (Tai Ceredigion). <i>Nodwyd.</i> Noted.

9. Biliau wedi eu talu / Bills paid.

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhif y Siec Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
1/12/14	Antur Teifi: <i>Rhent y Swyddfa</i> /Rent of Office	A7	D/D	£238.33 (0.00)
25/11/14	Trywydd: <i>Cyfieithu ar y pryd.</i> Simultaneous translation (4/11/14)	A17	4036	£102.90 (17.15)
30/11/14	The Royal British Legion, Cardigan Branch: <i>Plethdorch/Wreath</i> (9/11/14)	D2	4037	£50.00 (0.00)
1/12/14	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc/Clerk's Salary</i> (<i>Tachwedd/November</i>)	A3	4038	£732.95 (0.00)
17/11/14	Midshire Business Systems (<i>Llungopïo / Photocopying</i>)	A16	4039	£5.46 (0.91)
13/11/14	Menter Aberteifi: <i>Rhent yr ystafell, Sul y Cadoediad.</i> Rent of room for Remembrance Sunday, 9/11/14	A7	4040	£36.25 (0.00)
30/11/14	<i>Lwfans y Maer/Mayor's Allowance</i> (50%)	A1	4041	£1,600.00 (0.00)
9/11/14	Mrs Hildreth Owen: <i>Lluniaeth/Refreshments</i> (<i>Sul y Cadoediad/Remembrance Sunday</i>). <i>Costau'r cleric/Clerk's expenses</i> (extra postage [BDO], mobile phone calls, greeting cards), <i>lluniaeth/refreshments</i> (Grants Evening 24/4/14)	A20	4042	£21.18 (0.00) £33.32 (0.00)
16/11/14	David Evans & Sons: <i>Plâc/Plaque</i> for Shield (<i>Gwibdaith i Laufen/Trip to Laufen, Germany</i>)	B5	4043	£13.50 (2.25)
30/11/14	<i>Bachan Deche / Handyperson</i> (<i>Tachwedd/November</i>)	A18	4044	£272.90 (39.90)
30/11/14	Dyfed Symmons: <i>Gwaith tynnu'r hen oleuadau Nadolig i ffwrdd.</i> Removing old Christmas lights	B1	4045	£168.00 (28.00)
25/11/14	J. D. R. Thomas, C.N. Emlyn: <i>System sain.</i> Sound system (Remembrance Day Service)	C3	4046	£96.00 (16.00)
30/11/14	Antur Teifi: <i>Rhent yr Ystafell Gynhadledd.</i> Rent of Conference Room (4/11/14, 18/11/14. 25/11/14 x 2 [+ Police Commissioner])	A7	(4047 Cancelled) 4049	£112.00 (17.00)
1/12/14	Commercial Christmas: <i>Ail randal y goleuadau Nadolig/Second instalment of Christmas lights</i>	B1	4048	£12,080.04 (2,013.34)
30/11/14	<i>Argraffwyr E. L. Jones Printers: Nwyddau swyddfa.</i> Stationery, Hymn sheets, Remembrance Day Service, Loyalty Cards labels	A5 D6	4049	£135.20 (3.20) £306.00 (36.30) £43.20 (7.20)

Cynigiwyd gan y Cyng. Mark Cole ac eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook bod y biliau uchod yn cael eu talu.

It was proposed by Cllr Mark Cole and seconded by Cllr Dai Brabrook that the above bills be paid.

Derbyniadau/Receipts: 9/10/14 *Llog y Banc/Bank Interest* £4.36

10. Adroddiadau'r Cyngorwyr Sir / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. Mark Cole:

- (i) Dywedodd y Cyng. Cole y byddai'r gwaith mewnol yng Nghanolfan Ddydd Yr Hafod yn dechrau yn y flwyddyn newydd a disgwylir i'r gwaith gymryd dau fis i'w gwblhau.
- (ii) Datgelodd y Cyng. Cole y newyddion bod Cabinet y cyngor sir yn bwriadu trefnu ymgynghoriadau cyhoeddus i drafod dyfodol cartrefi'r henoed yn y sir. Mynegodd yr aelodau eu pryder am y datblygiad yma.
- (iii) Mynegodd y Cyng. Cole bod preswylwyr gwan eu golwg yn cael anhawster i groesi'r ffordd yn ymyl y fynedfa i Eglwys y Santes Fair ym Mhontycleifion ac y byddai croesfan pelican yn eu cynorthwyo. Gwnaeth ymholiadau gyda'r cyngor sir ynglŷn â gosod croesfan ddiogel ar y safle.

(b) Y Cyng. John Adams-Lewis:

- (i) Cytunodd y Cyng. Adams-Lewis gyda datganiadau'r Cyng. Cole am y gwelliannau honedig i gartref Yr Hafod ac ychwanegodd ei bryder o weld brwydr i warchod gwasanaethau'r cartref i'r dyfodol.
- (ii) Pryderodd hefyd am hen safle adeilad Meugan yn Rhos-y-dre; ai safle i godi rhagor o dai i'r henoed neu efallai bod cynlluniau gan y cyngor sir i werthu'r safle i ddatblygwyr? Rhaid i gyngor y dref fod yn wylidwrus. Ychwanegodd hefyd pe bai gwerthiant, bod rheidrwydd i'r elw aros yng ngwaelod y sir er mwyn ariannu gwasanaethau cyhoeddus eraill.
- (iii) Mae adeilad Carningli, Stryd y Priordy, lle cynhaliwyd gwasanaethau swyddfa'r cyngor sir hyd yn ddiweddar, ar werth.

(c) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) Cytunodd y Cyng. Miles bod angen i elw o unrhyw werthiant o adeiladau neu asedau yn Aberteifi aros yn y dref er mwyn hybu ffyniant yr ardal.
- (ii) Mae'r cyngor sir yn dechrau cyfnod o ymgynghori gogyfer â'r syniad o drosglwyddo cyfrifoldeb am yr holl feysydd chwarae yn y sir i'r cyngorau bro a thref. Byddai hyn yn effeithio man chwarae Netpwl yn Aberteifi.
- (iii) Gwersi nofio: mae argymhellion gan y cyngor sir i dorri nôl ar wersi nofio i blant sydd yn defnyddio pyllau tan ofal ymddiriedolaethau. Pwysleisiodd y Cyng. Miles y dylai pob plentyn dderbyn yr un sylw a gofal. Mae'r cyngor sir yn ailedrych ar yr argymhellion – i gynnwys pob pwll yng Ngheredigion.

(a) Cllr Mark Cole:

- (i) Cllr Cole stated that internal work on Yr Hafod Day Centre would start in the new year and it would take two months to complete.
- (ii) Cllr Cole announced that the county council Cabinet intend organising public consultations regarding the future funding of old people's homes in the county. Members voiced their concerns at this latest action.
- (iii) Cllr Cole mentioned that partially-sighted residents had difficulty crossing the highway near St Mary's Church in Pontycleifion and that a pelican crossing was a possible solution. He has made representations to the county council regarding the provision of a safe pedestrian crossing at this point.

(b) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) Cllr Adams-Lewis reiterated Cllr Cole's comments regarding Yr Hafod Home, and added his concern that existing services at the home would be under threat
- (ii) Cllr Adams-Lewis voiced his concern regarding the site of the old Meugan Centre in Rhos-y-dre; would the site be used for developing additional old people's homes or would the county council sell to a developer? Members need to be vigilant. If the site is sold, efforts will have to be made to ensure that proceeds from the sale remain in the Cardigan area for the benefit of public services.

- (iii) The Carningli property near Finch Square, which recently housed the county council offices, is now up for sale.

(c) Cllr Catrin Miles:

- (i) Cllr Miles agreed that any profit from the sale of property or assets in Cardigan should remain in the area to improve local services.
- (ii) The county council is entering a period of consultation regarding the possible transfer of responsibility of all its play areas to the care of community and town councils; this would affect the Netpool play area in Cardigan.
- (iii) Swimming lessons: proposals to cut back on swimming lesson for children using trust pools has been questioned by Cllr Miles, who has stressed that all children should be treated equally. The county council is reviewing the recommendations with a view to looking at provision for children using all pools in Ceredigion – not just Trust Pools.

11. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
201	CSC/CCC (Helen Harries): <i>Holiadur Adolygu Dosbarthiadau Pleidleisio, Mannau Pleidleisio a Gorsafoddd Pleidleisio. Questionnaire: Review of Polling Districts, Polling Places and Polling Stations.</i>	<i>Mae'r holiadur wedi ei ddychwelyd gan y clerc ar 20 Tachwedd.</i> Questionnaire was returned by the clerk on 20 November.
202	CSC/CCC (Keith Morgan): <i>Holiadur: "Dweud eich dweud ar gasgliadau Ailgylchu a Gwastraff".</i> Questionnaire: "Have your say on Recycling and Waste Collection"	<i>Poster wedi ei arddangos ar yr hysbysfwrdd.</i> Poster displayed on notice board. <i>Holiadur ar gael/Questionnaire available:</i> www.ceredigion.gov.uk . <i>Cytunodd y canlynol lenwi'r holiadur:</i> The following agreed to complete the questionnaire: Y Cyng./Cllrs Graham Evans, Dai Brabrook, Jane Roche, Melfydd George, Gwynfi Jenkins.
203	CSC/CCC (Keith Morgan): <i>Rhybudd Ymgynghoriad Cyhoeddus: Cynllun Trafnidiaeth Leol ar y Cyd â Phowys; Drafft Canolbarth Cymru 2015-20. Ymgynghoriad 24/11/14 i 5/1/15: Penmorfa, Aberaeron, 8/12/14, 1.00-7.00yh.</i> Notice of Public Consultation: Draft Mid Wales Joint Local Transportation Plan with Powys CC 2015-20. Consultation 24/11/14 to 5/1/15.	<i>Cynllun Drafft / Draft Plan:</i> www.tracc.gov.uk . <i>Cytunodd pawb ymateb dros ei hun.</i> All members agreed to individually respond.
204	<i>Cyngor Cymuned Aberporth: Copi o lythyr at y cyngor sir yn apelio i'r awdurdod barhau â gwasanaeth "Y Cardi Bach".</i> Aberporth Community Council: Copy of letter appealing to the county council to retain "Y Cardi Bach" service.	<i>Disgwylir ymateb oddi wrth Lywodaeth Cymru.</i> A response is awaited from the Welsh Government.
205	North Cardigan Action & Support Group: <i>Llythyr oddi wrth Mrs Gwyneth Morris yn gofyn am gefnogaeth y cyngor yn erbyn datblygiad Tai Ceredigion ar fan chwarae Maesglas.</i> Letter from Mrs Gwyneth Morris requesting the support of the council against the development of the Maesglas play area.	<i>Trafodwyd gohebiaeth 205 a 206 fel un eitem.</i> Correspondence 205 and 206 were discussed as one item (<i>gweler isod/see below</i>).
206	Tai Ceredigion: <i>Llythyr oddi wrth Steve Jones (Prif Weithredwr) ynglŷn â datblygu Cae Chwarae Maesglas.</i> Letter from Steve Jones (Chief Executive) regarding the development of the Maesglas Play Area.	<i>Copi wedi ei flaenyrru i'r holl gynghorwyr.</i> Copy forwarded to all members. <i>Trafodwyd gohebiaeth 205 a 206 fel un eitem.</i> Correspondence 205 and 206 were discussed as one item (<i>gweler isod/see below</i>).
207	<i>Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru: Llythyr yn cadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r cais i gywiro goleuadau'r A487 ar y ffordd osgoi.</i> North & Mid Wales Trunk Road Agent: Letter confirming that the Welsh Government will respond directly regarding the repairing of lights on the by-pass.	<i>Nodwyd.</i> Noted
208	<i>Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Aberteifi: Cais am lythyr o gefnogaeth i gywiro llawr y gegin yn Neuadd y Dref.</i> Cardigan BPT: A request for a supporting letter to repair the Guildhall kitchen floor.	<i>Mae'r clerc wedi anfon llythyr o gefnogaeth ymlaen.</i> The Clerk has forwarded a letter of support on 12/11/14.

209	<i>Llywodraeth Cymru (Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth): Adolygiad Terfyn Cyflymder Cefnffyrdd – Holiadur.</i> Welsh Government (Department of Economy, Science and Transport) (Trunk Road Speed Limit Review – Questionnaire)	<i>Cytunodd y Cyng. Adams-Lewis lanw'r holiadur ar ran y cyngor.</i> Cllr Adams-Lewis agreed to complete the questionnaire on behalf of the council.
210	<i>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: Astudiaeth Gofal Iechyd y Canolbarth.</i> Hywel Dda University Health Board: Mid Wales Healthcare Study. Public Events: Felinfach (11/12/14, 6.30pm), Canolfan Morlan Centre Aberystwyth (15/12/14, 6.30pm)	<i>Poster wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd.</i> Poster has been displayed in notice board.
211	Area 43: <i>Cyfarfod Blynyddol / AGM, 20/11/14, 7.30pm</i>	<i>Copi wedi ei flaenyrru i'r holl gynghorwyr.</i> Copy forwarded to all members (5/11/14). <i>Mynychwyd y cyfarfod gan y Cyng. Mark Cole.</i> Meeting attended by Cllr Mark Cole.
212	<i>Cyfoeth Naturiol Cymru: Astudiaeth Coed yn Nhrefi a Dinasoedd Cymru.</i> Natural Resources Wales: Study of Trees in Wales' Towns and Cities.	<i>Adroddiad ar safle we.</i> Report on the following website: www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
213	W. J. Williams & Davies, <i>Cyfreithwyr/Solicitors: Eglurhad cyfreithiol ar dir Golwg y Castell.</i> Legal advice on land at Golwg y Castell (Pentop)	<i>Copi wedi ei anfon i'r Maer a'r Faeres.</i> Copy forwarded to Mayor and Mayoress. <i>(Gweler isod / See below.)</i>
214	<i>Sianel Glir Afon Teifi: Cais am lythyr o gefnogaeth.</i> Afon Teifi Fairways Ltd.: Request for a letter of support for vehicle access to the Gwbert pontoon.	<i>Cytunwyd anfon llythyr o gefnogaeth.</i> It was agreed to forward a letter of support.
215	Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru 2015: Caerffili a'r Cylch. <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee.
216	Bobath: <i>Canolfan Therapi Plant Cymru.</i> Children's Therapy Centre Wales. <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee.
217	<i>Bachan Deche: Adroddiad mis Tachwedd.</i> Handyperson's November report.	<i>I'w drafod tan eitem 12.</i> To be discussed under item 12.

Keith Morgan: *Pennaeth Asedau a Gwasanaethau Trafnidiaeth.*
Head of Assets and Transportation Services

Helen Harries: *Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol. Electoral Services Manager.*

2015/206—Darllenwyd y ddau lythyr a restrwyd uchod cyn i'r drafodaeth lawn ar y mater ddechrau. Cynigiwyd gan y Cyng. Melfydd George ac eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook bod y cyngor yn cadarnhau ei gefnogaeth o'r cais i gofrestru man chwarae Maesglas fel llain werdd, ac i ofyn i gwmni Tai Ceredigion dynnu nôl ei wrthwynebiad gan arbed arian ychwanegol o gynnal ymchwiliad cyhoeddus. Mae'r cynnig a osodwyd ger bron y cyfarfod hefyd yn gwrthwynebu cynnig Tai Ceredigion i Gyngor Tref Aberteifi gymryd prydles o'r man chwarae ar rent o £1 y flwyddyn. Derbyniwyd y penderfyniad uchod yn unfrydol gan Gyngor Tref Aberteifi.

Datganodd y Cynghorwyr John Adams-Lewis a Catrin Miles eu diddordeb rhagfarnol cyn gadael yr ystafell yn ystod y drafodaeth.

205/206—Both letters of correspondence listed above were read and a full discussion ensued. It was proposed by Cllr Melfydd George and seconded by Cllr Dai Brabrook that the council confirms its support of the application to register the Maesglas green space as a Village Green and to request Tai Ceredigion to withdraw completely its objection and by so doing avoiding additional costs of a public enquiry. The resolution also opposes the offer presented by Tai Ceredigion for the town council to lease the majority of the Maesglas green area on an annual peppercorn rent of £1. The aforementioned resolution was unanimously passed by Cardigan Town Council.

Cllrs John Adams-Lewis and Catrin Miles declared their prejudicial interest and left the room during proceedings.

213—Tir Golwg y Castell (Cae Chwarae Pentop): Gan fod y cynllun wedi newid yn ddiweddar, gyda darn ychwanegol o dir wedi ei glustnodi i greu mynediad newydd o stad Golwg y Castell, cytunwyd gofyn i Mr Bob Sheridan drefnu gyda'r cyfreithwyr i baratoi dogfen Amrywiad newydd i gyd-fynd â'r trosglwyddiad gyda'r Gofrestrfa Tir. Cytunwyd hefyd i ofyn i Mr John Dyer baratoi chwiliadau swyddogol gyda'r awdurdod lleol i

benderfynu a oes unrhyw gostau tir yn effeithio'r safle neu a oes unrhyw broblemau eraill wedi eu rhestru yng nghofrestr cyfreithiol lleol y costau tir.

213—Land at Golwg y Castell (Pentop Playing Field): As the design had changed recently, with additional land to allow an entrance from Golwg y Castell, it was agreed to ask Mr Bob Sheridan to arrange with the solicitors to create a new Variation document to accompany the transfer of registered title with the Land Registry. It was also agreed to request Mr John Dyer to carry out a formal search with the local authority to ascertain whether there are any local land charges affecting the site or any other adverse entries recorded in the register of local land charges.

- 12. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.**
Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.
Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 18 Tachwedd.
Confirmation of 18 November Sub-committee Minutes.

Cynigiwyd gan y Cyng. Mark Cole ac eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook bod cofnodion 18 Tachwedd yn gywir.

It was proposed by Cllr Mark Cole and seconded by Cllr Dai Brabrook that the 18 November minutes were correct.

Materion yn codi

Tud. 919, eitem (*Priffyrdd*) (e): Dywedodd y clerc ei fod wedi archebu baner y Ddraig Goch gydag Awen Teifi.

Matters arising

Page 919, eitem (*Highways*) (e): The clerk stated that he had ordered the Red Dragon flag with Awen Teifi.

Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 25 Tachwedd (Cadwgan).
Confirmation of 25 November Sub-committee Minutes (Cadwgan).

Cynigiwyd gan y Cyng. Melfydd George ac eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook bod cofnodion 25 Tachwedd yn gywir.

It was proposed by Cllr Melfydd George and seconded by Cllr Dai Brabrook that the 25 November minutes were correct.

Materion yn codi

Dywedodd y Cyng. Mark Cole (cynrychiolydd cyngor y dref ar fwrdd Cadwgan) bod Mrs Sue Lewis a Mr Richard Thomas wedi eu hail-ethol i'r bwrdd a bod Mr Glen Johnson wedi ei ethol fel aelod newydd yn y cyfarfod cyhoeddus blynyddol a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd. Pan fydd cwmni Scott yn trosglwyddo'r awenau yn ôl i'r bwrdd ar 19 Rhagfyr, y gobaith yw y byddant yn symud y cynwysyddion sydd ar ymyl y Strand ac yn creu palmant newydd, er bydd yr atalfeydd yn dal i warchod mur y castell. Gofynnodd y Cyng. Cole hefyd am ganiatâd i drefnu cyd-gyfarfod â Menter Aberteifi, Cadwgan a'r cyngor er mwyn trafod arwyddion newydd ar hyd y dref a'r angen i ddiweddarau yr hysbysfyrddau dehongli yn y meysydd parcio – caniatwyd hyn.

Matters arising

Cllr Mark Cole (town council representative on the Cadwgan board of trustees) stated that Mrs Sue Lewis and Mr Richard Thomas had been re-elected onto the board and that Mr Glen Johnson had been elected as a new member at the AGM held on 25 November.

He added that Scott hope to remove the containers from the Strand area when responsibility for the site will be transferred to Cadwgan on 19 December; the pavement will be refurbished, but the barriers will be left in place against the castle walls. Cllr Cole asked for permission to organise a joint meeting with Menter Aberteifi, Cadwgan and the town council to discuss the way forward regarding new town centre signage and updating the interpretation boards in the car parks. Permission was granted by council.

Adroddiad y Bachan Deche: Cytunwyd bod y cyngor yn anfon llythyr o ddiolch i gwmni J. J. Williams a'i Feibion am fenthyg yr atalfeydd ar ddydd y Cadoediad ac i warchod y goeden Nadolig ar risiau Neuadd y Dref yn rhad ac am ddim. Diolchwyd hefyd i Mr John Morris am drwsio'r plethdorchau o amgylch y senotaff.

Handyperson's Report: It was agreed that a letter of gratitude be forwarded to Messrs J. J. Williams & Sons for the hire of barriers on Remembrance Day and to protect the Christmas tree on the Guildhall steps without charge.

***Oherwydd natur gyfrinachol y busnes oedd i'w drafod, gwaherddwyd y wasg,
a chynhaliwyd eitem 13 mewn pwyllgor.
Cynigiwyd yr uchod gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Catrin Miles.***

*In view of the confidential nature of the business to be transacted, the press, etc.,
were excluded and the council discussed item 13 in committee.*

The above was proposed by Cllr John Adams-Lewis and seconded by Cllr Catrin Miles.

13. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.

Any Other Business at the discretion of the Mayor.

- (a) **Cyfraniad i Ymddiriedolaeth Cadwgan.**
Donation to Cadwgan BPT.
- (b) **Gwobrau cymunedol Cyngor Tref Aberteifi.**
Cardigan Town Council community awards.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.30yh
There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 8.30pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date